

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Diolch yn fawr - diolch am bob cydweithrediad gyda'r trefniadau yn ystod mis Medi. Rydym yn gwerthfawrogi eich prydlondeb ar gychwyn ac ar ddiwedd dydd, mae hyn yn help mawr i ni fel ysgol wrth i ni barhau i gadw'r dosbarthiadau ar wahân drwy gydol y dydd a sicrhau and oes un grŵp cyswllt yn cymysgu gydag un arall. Hoffwn eich atgoffa fel rhieni / gwarcheidwaid i gadw eich pellter cymdeithasol ger campws yr ysgol, yn arbennig ar ddiwedd dydd.

Gwisgo'n addas – mae'r ysgol yn dilyn y canllawiau o safbwynt sicrhau fod yna ddigon o awyr iach ym mhob dosbarth, mae hyn yn golygu fod ffenestri a drysau'r dosbarthiadau ar agor. Wrth i ni wynebu'r Hydref a'r Gaeaf hoffwn eich hatgoffa i wneud yn siwr fod eich plant yn gwisgo digon o ddillad cynnes yn yr ysgol.

Gwersi offerynnol – Mae'r gwersi offerynnol gyda'r Athrawon Peripatetic eisioes wedi cychwyn dros Teams yn yr ysgol – hoffwn eich atgoffa o'r diwrnodau perthnasol ar gyfer y gwahanol offerynnau:

Dydd Llun / Monday	
Dydd Mawrth / Tuesday	Offerynnau Pres / Brass
Dydd Mercher / Wednesday	Drymiau / Drums Telyn / Harp Chwythbrennau / Woodwind
Dydd Iau / Thursday	Offerynnau llinynnol / Strings
Dydd Gwener / Friday	Piano / Piano

Wythnos Beicio i'r Ysgol - Mae'n wythnos beicio i'r ysgol rhwng yr 28ain o Fedi a'r 2il o Hydref. Rydym yn eich annog i deithio i'r ysgol mewn ffordd werdd drwy feicio, sgwtera neu gerdded (os fydd modd gwneud hynny yn ddiogel).

Mae Sustrans hefyd yn cynnal cystadleuaeth lle bo modd ennill beic Apollo plentyn gan Halfords. Dyma'r camau er mwyn cymryd rhan:

- Yn ystod Wythnos Beicio i'r Ysgol, cymerwch fideo byr neu yrru llun gyda neges yn dweud wrthym ni pam eich bod yn hoffi, neu pam yr hoffech chi, feicio i'r ysgol
- Dilynwch a thagiwch @Sustrans ar Facebook, Twitter neu Instagram
- Rhannwch eich cynnig mewn post gan gynnwys #SustransWin erbyn y 5ed o Hydref.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith

R C Williams, Pennaeth, 25/09/2020 prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Thank you - thank you for all your co-operation with the arrangements during September. We appreciate your punctuality at the start and at the end of the day, this helps us as a school to keep the classes separate throughout the day and ensure that one contact group does not mix with another. I would like to remind you as parents / guardians to keep your social distance near the school campus, especially at the end of the day.

Appropriate clothing - the school follows the guidelines of ensuring that there is plenty of fresh air in every classroom. This means that the windows and doors of the classroom are open. As we face Autumn and Winter I would like to remind you to make sure that your children wear plenty of warm clothes at school.

Instrumental lessons - Instrumental lessons with the Peripatetic Teachers have already started over Teams at school - I'd like to remind you of the relevant days for the different instruments:

Dydd Llun / Monday	
Dydd Mawrth / Tuesday	Offerynnau Pres / Brass
Dydd Mercher / Wednesday	Drymiau / Drums Telyn / Harp Chwythbrennau / Woodwind
Dydd Iau / Thursday	Offerynnau Ilinynnol / Strings
Dydd Gwener / Friday	Piano / Piano

Cycle to School Week – the Sustrans cycle to school event will be running from September 28th to October 2nd 2020. We are encouraging you to travel in a greener way by cycling, scooting or walking to school (if you can do so safely).

Sustrans are also running a bike to school competition where you could win a brand-new Apollo Kids bike from Halfords. To enter the Sustrans competition follow these steps:

- During Bike to School Week, take a short video or post a photo and message telling us why you love to or would like to cycle to school
- Follow and tag @Sustrans on Facebook, Twitter or Instagram
- Share your entry with #SustransWin by the 5th of October.

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher, 25/09/2020 prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk